# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 09/03/17

**Yn Bresennol:** **Y Cynghorydd Selwyn Griffiths - Cadeirydd**

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Annwen Daniels, Tom Ellis,

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Dr Gwyn Lewis (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)

**Athrawon:** Miriam Amlyn, Heledd Jones, Alwen Watkin

**Swyddogion:** Mai Bere (Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol), Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**GwE:** Miss Bethan James (Ymgynghorydd Her)

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Jean Forsyth, Cathryn Davey (Undeb Athrawon), Mr Cynrig Hughes (Yr Annibynwyr), Mrs Elizabeth Roberts (Undeb Bedyddwyr Cymru).

**1. GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Selwyn Grifiths.

**2. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle, yn wyneb y ffaith mai hwn ydoedd cyfarfod olaf CYSAG cyn Etholiad y Cyngor ar 4 Mai 2017, i ddiolch i'w gyd-aelodau am yr anrhydedd o gael bod yn Gadeirydd CYSAG ac am eu gwasanaeth a'u cyfraniad i waith CYSAG dros y blynyddoedd diwethaf. Dymunwyd yn dda i'r rhai hynny oedd yn bwriadu ymddeol fel Aelodau ac i'r rheiny a fyddai'n sefyll etholiad ym mis Mai. Yn yr un modd diolchodd i'r swyddogion am eu cefnogaeth hwythau iddo tra yn y Gadair.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Selwyn Griffiths fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem 6 (b) (ii) Hunan Arfarniad Ysgol Borth y Gest oherwydd ei fod yn llywodraethwr yn yr Ysgol honno.

'Roedd o'r farn nad oedd y buddiant yn rhagfarnu ac ni adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2017 fel rhai cywir.

## 5. HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION

(a) Tywysodd y Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol yr Aelodau drwy daflen a gyflwynwyd yn nodi crynodeb o ganfyddiadau ysgolion gan dynnu sylw mai 3 ysgol gynradd a oedd wedi eu harolygu gan ESTYN yn ystod tymor yr Haf 2016 ynghyd ag 6 ysgol gynradd yn ystod cyfnod tymor yr Hydref 2016.

(b) Mewn ymateb i sylw wnaed gan Aelod ynglŷn â therminoleg ESTYN o'r farn "digonol" yn hunan arfarniad Ysgol Maenofferen, nododd Ymgynghorydd Her GwE bod y frawddeg "gofal, cymorth ac arweiniad" yn rhan o faes ehangach a thynnwyd sylw bod y geiriau "effeithiol, llwyddiannus, cadarn, buddiol" yn cyfeirio at "da" a oedd yn berthnasol i Addysg Grefyddol.

(c) Cyfeiriwyd at Hunan Arfarniadau'r ysgolion unigol canlynol

(i) Ysgol Bodfeurig
(ii) Ysgol Borth-y-gest
(iii) Ysgol Bro Cynfal
(iv) Ysgol Cae Top
(v) Ysgol Llanbedr
(vi) Ysgol Maenofferen
(vii) Ysgol Penybryn Tywyn
(viii) Ysgol Rhiwlas
(ix) Ysgol Waunfawr

Nododd Ymgynghorydd Her GwE bod ansawdd yr Hunan Arfarniadau wedi gwella ond bod rhai gwendidau yn parhau, oherwydd nad oedd ysgolion wedi craffu'r canllawiau yn ddigonol a'r angen i dderbyn canllawiau cliriach.

Yng nghyd-destun Ysgol Maenofferen, tynnwyd sylw penodol at y cyfeiriad o lefelau disgyblion ar ddiwedd Blynyddoedd 3, 4, a 5.

Nodwyd bod Hunan Arfarniad Ysgol Cae Top wedi ei lunio ar ddull gwahanol ac wedi derbyn arolygiad ardderchog yn ddiweddar.

Cyfeiriwyd at Hunan Arfarniad Ysgol Penybryn Tywyn a oedd yn rhoi blas o'r gwersi.

**PENDERFYNWYD: Derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a'r hunan arfarniadau a gofyn, yn unol â'r drefn, llongyfarch yr ysgolion uchod am eu hymdrechion i gyrraedd y graddau.**

## 6. DIWEDDARIAD GAN YR YMGYNGHORYDD HER

### (a) Addysg Grefyddol a'r Cwricwlwm am Oes

Atgoffwyd yr Aelodau o brif argymhellion Yr Athro Graham Donaldson fel rhan o'r cwricwlwm "Dyfodol Llwyddiannus" neu Gwricwlwm am Oes, Cwricwlwm i Gymru. Un o'r egwyddorion hynny ydoedd i'r cwricwlwm gael ei weithredu o'r gwaelod i fyny a'i fod yn addas i'r ardal leol. I'r perwyl hwn, roedd CYSAGau lleol yn enghraifft dda i allu dylanwadu ar gwricwlwm lleol.

Ymhelaethwyd ymhellach o'r pedwar diben wrth wraidd y cwricwlwm newydd arfaethedig sef cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith

- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Un o'r tasgau i'w wynebu ydoedd sicrhau bod y cwricwlwm yn cael ei ddatblygu i ymateb i'r dibenion uchod.

Ymhelaethodd Ymgynghorydd Her GwE ei bod yn rhan o Banel Ymgynghorol a'u bod wedi cwrdd i geisio llunio arweiniad ar "beth yw addysg grefyddol". Yn sgil y gwaith hwn, cyflwynwyd i'r Aelodau ddatganiadau ar "beth yw Addysg Grefyddol dda" a gofynnwyd iddynt mewn parau drafod os oedd y datganiadau yn cyfrannu at y pedwar diben a chonsensws yr Aelodau ar y cyfan ydoedd bod y datganiadau yn ddigon clir ac yn gymwys i'r pedwar diben.

O ran y camau nesaf, anogwyd yr athrawon a oedd yn bresennol i brofi'r uchod yn eu hysgolion i weld os ydynt yn gyfforddus gyda'r datganiadau, a.y.b. ac anfon unrhyw sylwadau o ran adborth yn ôl i Ymgynghorydd Her GwE.

**(b) TGAU / Safon Uwch**

Esboniodd yr Ymgynghorydd Her bod dirprwyaeth o'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi cwrdd gyda Mr Gareth Pierce, CBAC, a oedd wedi derbyn neges glir bod pryder ynglyn a chyflwyno manyleb TGAU Medi diwethaf a rhoddwyd pwysau arnynt i'w ohirio am flwyddyn. Erbyn hyn nodwyd bod y fanyleb wedi cyrraedd. Nodwyd bod athrawes arweiniol GwE (Mefys Jones) yn gweithredu'n effeithiol mewn ymgynghoriad gydag athrawon Gwynedd a Môn ac y byddai deunydd ar gael erbyn Mehefin / Gorffennaf.

Mewn ymateb i'r uchod mynegwyd bryder ymhlith yr athrawon ynglyn a'r newidiadau i'r fanyleb TGAU a'r ffaith bod ysgolion angen dechrau'r gwaith cwrs yn fuan a ddim deunyddiau Cymraeg ar gael, ac y byddai canlyniadau ysgolion yn dioddef.

Deallir bod llawer o ysgolion yn Ne Cymru yn cynnig Manyleb A fel cwrs dewisol, a Manyleb B fel un statudol. Pwysleisiwyd bod Addysg Grefyddol yn ofyniad statudol ar gyfer pob disgybl a bod angen i ysgolion ddehongli'r gofynion yn drylwyr yn unol â'r ddeddf. Yn ogystal, gellir darparu rhaglen astudio sy'n cyfeirio at y gofynion ac yn cynnig gymwysterau priodol eraill e.e. Bagloriaeth Cymru.

**(c) Adnoddau Addysg Grefyddol**

Cyfeiriwyd at y cyhoeddiadau canlynol ar gyfer adnoddau:

- Dau rifyn o E-gylchgrawn Addysg Grefyddol wedi eu cyhoeddi ar gyfer Cyfnod Allweddol 3
- Podlediadau – pytiau o raglenni'r BBC "Bwrw Golwg"
- Erthyglau gan dri awdur (Noel Dyer, Huw Dylan a Catrin Roberts) sydd wedi bod yn cydweithio yn ddiweddar

(ch) **Canlyniadau Allanol**

Adroddodd Ymgynghorydd Her GwE bod canlyniadau haf 2016 yn gyffredinol yn dda iawn gyda bechgyn yn gwneud cynnydd da a'r bwlch yn cau rhwng perfformiad y merched a'r bechgyn.

Mynegwyd pryder gan aelod bod ysgolion yn colli athrawon sydd yn arbenigo mewn addysg grefyddol ac yn hyn o beth bod statws y pwnc yn cael ei golli.

Mewn ymateb, nododd Ymgynghorydd Her GwE bod ysgolion yn gorfod cydweithio oherwydd yn bennaf toriadau cyllidol ac o'r herwydd nad oedd Penaethiaid Adran mewn rhai ysgolion. O ran statws y pwnc, nid oedd arolygiad thematig diwethaf ESTYN ar Addysg Grefyddol yn nodi pryder o ran ansawdd gwersi athrawon nad oeddynt yn arbenigwyr yn y pwnc.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch i'r Ymgynghorydd Her am y wybodaeth uchod.**

## 7. CYNLLUN GWEITHREDU CYSAG GWYNEDD

Cyflwynwyd cynllun gweithredu am y flwyddyn 2016-17.

Cyfeiriwyd, yn ei absenoldeb, at sylw anfonwyd gan Mr Cynrig Hughes ynglyn ag arsylwi arfer dda yn yr ysgolion ac roedd o'r farn y dylid gwneud ymgais yn weddol fuan i wneud hyn gan fod y mater wedi ei drafod ers sawl blwyddyn bellach gan CYSAG Gwynedd a dim gweithrediad ar y mater hyd yma.

Mewn ymateb i'r uchod, awgrymodd Ymgynghorydd Her GwE i gynnal cyfarfod CYSAG tymor yr haf ar ffurf wahanol ac i roi gwahoddiad i oddeutu 4 o athrawon i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar eu harferion gorau a / neu bryderon. Awgrymwyd ymhellach er mwyn hwyluso'r trefniadau i ofyn i'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol :

- Anfon at ysgolion i ganfod a fyddai Penaethiaid yn fodlon rhyddhau athrawon i fynychu
- Ymchwilio a fyddai modd digolledu ysgolion am ryddhau athrawon
- Canfod a fyddai ysgolion yn fodlon gwahodd Aelodau CYSAG i arsylwi arferion da yng nghyswllt addoli ar y cyd

Addawodd Ymgynghorydd Her GwE y byddai'n darparu briff eithaf clir i ysgolion ar gyfer yr uchod.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi'r cynllun gweithredu ar gyfer 2016-17.**

**(b) Gofyn i'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol weithredu yn unol â'r pwyntiau bwled uchod yn dilyn derbyn briff gan Ymgynghorydd Her GwE.**

## 8. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

### (a) Cofnodion cyfarfod diwethaf

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf o'r Gymdeithas a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2016 yn Sir Gaerfyrddin.

Nododd Ymgynghorydd Her GwE bod y cyfarfod yn un buddiol a chyfeiriodd at eitem o fewn y cofnodion at ymarfer da a weithredir yn Ysgol Gymraeg Bro Myrddin sy'n rhoi cyfle i bob disgybl gymryd rhan a chyflwyno gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00 pm a daeth i ben am  3.35 pm

**CADEIRYDD**